Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter

Llanpumsaint 100 Club 2022/23

Income

£ 676.71

Expenditure

	Income	Expenditure
Bank Opening Balance @ 01.02.2022		
119 members @ £12	£ 1,428.00	£ 770.00
Donation	£ 1.00	£ 550.00
		£ 20.00
		£ -
	£ 1,429.00	£ 1,340.00

2022/23 Cheques Unpresented @ 01.02.23

2022/23 Unpresented Cheque (505)
2022/23 Unpresented Cheque (532)

2021/22 Cheques Presented in 2022/23

2021/22 Prize Cheque (410)
2021/22 Unpresented Cheque (419)

£ 20.00
£ 15.00
£ 35.00

£ 765.71

Bank Closing Balance @ 01.02.23

Balance Check £ 2,140.71
Balance Check £ 2,140.71

Balance Check £ 765.71
2022/2023 Profit £ 89.00

Prepared by Heledd Jones (Treasurer)

Checked by Huw Williams

Dated 29.01.2023

Llanpumsaint 100 Club 2023/24 - Members
Clwb 100 Llanpumsaint 2023/24 - Aelodau

Number / Rhif	Name / Enw
001	John Richards
002	Lewis Richards
003	Eirlys Lloyd
004	Andy Williams
005	Lisa Williams
006	Diane Lee
007	Peter Lee
008	Beth Thomas
009	David Icke
010	Sarah Moore
011	William Fitzsimon
012	Derick Lock
013	Bowls Club
014	Valerie Lock
015	Delyth Brown
016	Dafydd Jones
017	Becka Dufty
018	Hazel Thomas
019	David Thomas
020	Heledd Jones
021	Mathew Jones
022	Lesley Hargreaves
023	Ray Davies (Delfryn)
024	Luned a Dewi Davies
025	Dion Davies
026	Rosie Frewin
027	Sharon Frewin
028	Darrell Ward
029	Megan Eldred
030	Rhys Eldred
031	Peter Ody
032	Brian Smethurst
033	Carolyn Smethurst
034	Dewi & Gwen Thomas
035	Becky Dufty
036	Helen Dufty
037	Sandy Mather
038	Cath Vimpany
039	Ann Jones
040	Lyn Henstredge
041	Nick Henstredge
042	Dafydd Charles
043	Delyth Charles
044	Bob Jameson
045	Mo Jameson
046	Mathew Jameson
047	Edward Davies
048	Sylvia Davies
049	Peter Giles
050	David Hume
051	Barbara Cable
052	Dexter Penfold
053	Ollie Penfold
054	Grant Davies
055	Nivinia Davies
056	Dylan Jones
057	Meinir Jones
058	Rhodri Jones
059	Angharad Harding
060	Lesley Hargreaves

Number / Rhif	Name / Enw
061	Eifion Saer
062	Kevin Mably
063	Lee Davies
064	Mike Eynon
065	Marlene Wareham
066	Dorrien & Mair Thomas
067	Lyn & Neris Thomas
068	Jill Edwards
069	Huw Williams
070	Cathy Williams
071	Clare Bishop
072	Sally James
073	Stuart James
074	Pamela Jones
075	Dewi Jones
076	Emma Clift
077	Lisa Clifft
078	Steve & Wayne Goman
079	Dee Tozer
080	Keith Tozer
081	Ray Davies (Brackla)
082	Shirley Davies
083	Gary & Tanya Isitt
084	Paul & Juliet
085	Chris Morley
086	Eleri Evans
087	Rhianydd Jones-Evans
088	Alun Stedman
089	Maria Stedman
090	Dave Robinson
091	Vi Robinson
092	Elsie Jones
093	Eirian Powell
094	Sandra Powell
095	Ann Wyke
096	Irene Davies
097	Moishe Merry
098	Felix Merry
099	Eli Merry
100	Gwyneth Ayers
101	Ian Ayers
102	Bryan Davies
103	Marged Davies
104	Jonny Evans
105	Lyn Evans
106	Eirian Williams
107	Aaron Jones
108	Lisa Jones
109	Sally & Bruce
110	Rhys a Swyn Roberts
111	Roz Evans
112	Patrick Thacker
113	Llew Thomas
114	Dewi & Luned Davies
115	Betty Marshall

If you would like to join, it's not too late, please e-mail:
llanpumsaint100club@gmail.com

Os hoffech ymuno, nid yw'n rhy hwyr, anfonwch e-bost
at: **llanpumsaint100club@gmail.com**



Llais y Llan Mehefin 2023

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 mis Gorffennaf 2023

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT
COEDWIG GORLLEWIN BRECHFA



BRECHFA FOREST WEST WIND FARM
COMMUNITY FUND

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan

Diwrnod Hwyl 2023



I'ch Dyddiadur

Digwyddiadau Unigol

- **Nos Lun 19 Mehefin** - Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenry. am 8 o'r gloch yn y Neuadd. Croeso i bawb.
- **Dydd Sadwrn 1 Gorffennaf** – Bore Te a Thost, Coffi a Chacen, 10-12 yn Neuadd y Pentref. Croeso i bawb.
- **Dydd Mawrth 11 Gorffennaf** - Cyngor Cymuned Llanpumsaint, 8 o'r gloch yn y Neuadd.
- **Nos Wener 14 Gorffennaf** - Cwis yn y Neuadd. Drysau ar agor am 7yh i gychwyn am 7.30. £1 y pen a £5 i gystadlu mewn timau o 5. Dewch a'ch diod a'ch gwydrau eich hunan. Gwobr ariannol i'r enillwyr.

Digwyddiadau Wythnosol

- **Bowlio Dan-do** yn y Neuadd Goffa – bob Nos Lun a Nos Iau – 7.30 - 9.30 (ailgychwyn ym mis Medi)
- **Caffi Bach** yr Eglwys bob Dydd Mawrth o 11.30 - 2.30; archebion olaf 2 o'r gloch
- **Dawnsio Salsa** yn y Neuadd Goffa ar Nos Fawrth (ailgychwyn ym mis Medi)
- **Zumba** yn y Neuadd Goffa ar Nos Fercher o 7 – 8; croeso i rai newydd ar unrhyw achlysur (gwyliau haf ar ôl 20 Gorffennaf)
- **Cwtsh Cynnes yr Haf** - Neuadd fore Iau 10 hyd 1 o'r gloch: 22 Mehefin – dyfrlliwiau, 6 Gorffennaf – darluniad, 20 Gorffennaf- brodwaith coedwig (gwyliau haf ar ôl 20 Gorffennaf)
- **Codi Canu** yn y Neuadd Goffa, Nos Wener (ac eithrio nosweithiau cwis) am 7yh (Mehefin 2 - 16 - 23 - 30 & Gorffennaf- 7 - 21 – 28)

Digwyddiadau Addoli arferol

- **Eglwys Llanpumsaint** - Boreol Weddi am 9.00 yb bob Sul.
 - **Chwarae gyda Duw** – 3.45 – 4.45 bob prynhawn Dydd Mawrth.
 - **Cylch DOT** - I ieuencid dros 10 oed yn Eglwys Llanpumsaint fel arfer bob Nos Iau 0 5.30 tan 7.30.
- **Llanllawddog / Sant Celynin Bronwydd**: 11yb ar y Sul
Parch Canon Dr Matthew Hill LMA Deon 01267 46842 matthewhill@cinw.co.uk
Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Cysylltydd Gwasanaethau Eleri Morris (Ysgrifenyddes) 01267 253895
- **Capel Ffynnonhenri** Cysylltydd Gwasanaethau Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 – Gwyn Nickolas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** Cysylltydd Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

Gwasanaethau plwyfol wythnosol

- Llun 10.15 – 12.15 Y **Fet Symudol** Neuadd Goffa (Tel [01267 220404](tel:01267220404))
Drwy apwyntiad yn unig
- Mawrth 2 – 3.45 Fan y **Swyddfa Bost** – Ger y tafarn
- Mercher
 - **Llyfrgell Symudol** (10.45 – 11.15 Neuadd Goffa 11.15 - 11.45 ger Tafarn y Railwe. Noder - yn ymweld bob tair wythnos yn unig (21 Mehefin, 12 Gorffennaf, 2 Awst, 22 Awst)
 - Pobydd **Bara** i'r tŷ (07971 740505)
 - Fan **Pysgod** i'r tŷ (07779 987305)
- Iau **Ffrwythau a Llysiau** i'r tŷ (07969 047045)
- Gwener 1-3 Fan y **Swyddfa Bost** ger y Tafarn

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Ail etholwyd y Cynghorwr Arwel Nickolas i'r Gadair yn y cyfarfod blynyddol ym Mis Mai. Mi wyddoch lawer ohonoch fod Arwel, a godwyd yn y gymuned, wedi ein cynrychioli ar y Cyngor am 35 blwyddyn ac wedi bod yn Gadeirydd ers 2019.

Cynhaliwyd cyfarfod arferol hefyd ym Mis Mai i drafod materion pwysig ac yn arbennig y trefniadau trafndiaeth newydd osodwyd ger y Graig gan Adran Trafndiaeth y Cyngor Sir. Daeth cynulleidfa niferus o drigolion Llanpumsaint ynghyd i nodi eu pryderon ynghlyn a diogelwch y drefn newydd. Nodwyd y bu sawl bron-ddamwain, trosglwyddo nwyddau'n cael eu dileu gyda pheiriannau mawr amaethyddol yn methu llywio'n ddiogel heibio'r postion newydd. Cyhoeddwyd eto nad oedd y Cyngor Cymuned wedi eu cysylltu ynghlun a'r mater a'u bod wedi gofyn droeon i'r pyst gael eu symud ac i'r holl bryderon diogelwch gael eu hystyried.. Penderfynodd y Cyngor i barhau i ganlyn y materion yma er lles y gymuned ac i drefnu cyfarfod a'r Adran Drafnidiaeth i fynd a'r maen i'r wal.

Deg diwrnod yn ddiweddarach yn dilyn sawl E-bost, galwadau ffôn a chyfarfodydd, cyhoeddodd y Cynghorwr Sir Brian Davies fod yr Adran Drafnidiaeth yn barod i symud y polion ger cyffordd y Graig cyn gynted â phosib. Ar hyn o bryd aros i ni o hyd yn y gobaith iddo gael ei gyflawni cyn eich bod yn darllen hwn, gan ail osod y gyffordd fel y bu. I gymuned fach fechan fel i ni mae hyn yn dipyn o fuddugoliaeth ac yn dangos yr hyn ellir ei gyflawni drwy gyd-weithio.



Gwnaeth y Cyngor hefyd gyflwyno rhodd i bob disgybl ysgol i gofnodi coroni'r brenin Lloegr. Bu hyn a'r ffurf cwpanau wnaed yn lleol a'u cyflwyni gan y Cadeirydd a'r cynghorydd Lack.

Mae'r Cyngor yn dal i chwilio am **Glerc dros dro** - cyflog £2,210 - £2440 y flwyddyn, yn gweithio yn bennaf o adre ar oriau hyblyg. Dyma gyfle gwych i rywun lleol yn meddu ar sgiliau gweinyddol ac yn awyddus i gyfrannu i'r gymuned leol. Byddai bod yn ddwyieithog yn ddelfrydol ond nid o reidrwydd. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gael ac am wybodaeth bellach gellir cysylltu ag Arwel Nickolas y Cadeirydd 01267 281365, neu'r clerc dros-dro KumiArliyas clerc.llanpumsaint@gmail.com neu 07799898002. Nid oes dyddiad cau ac felly ystyrir pob cais yn ôl y galw hyd a wneir apwyntiad.

Bydd y Cyngor yn dal i gyfarfod bob yn ail fis yn y Neuadd. Mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir yr agenda a'r munudau ar ei gwefan

www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en

Cyfarfod nesaf - Gorffennaf 11eg 2023 am 8 o'r gloch - Croeso!

Codi Canu

Ar ddydd Gwener 26ain o Fai daeth datblygiad newydd i'r Neuadd - sef Codi Canu Cyhoeddus. Da nodi i ni wedyn gynnal ail noson gyda thua 30 yn bresennol. Wrth drefnu'r gweithgaredd penderfynwyd osgoi defnyddio'r term Côt oherwydd bod yna un hynod lwyddiannus yma'n barod. Nifer fach i'n ni sy'n hoff o ganu ein ffefrynnau er nad ydym ddigon da i ymaelodi mewn côr. Tra i ni wrthi gwelir y caneuon ar sgrin er mwyn galluogi sŵn derbyniol. Cydnabyddir fod canu yn fuddiol yn feddyliol a chorfforol, a gallaf eich sicrhau i bawb adael mewn hwyliau da. Felly ymunwch a ni ar Nos Wener erbyn 7 o'r gloch. Dewch a'ch gwydrau a'ch diod ac am £2 cewch ymuno yn y raffl hefyd.

Dyddiadau - Mehefin 2 - 16 - 23 -- 30 -- Gorffennaf- 7 - 21 - 28.

Gan obeithio eich gweld yno – Carolyn Atkinson

Cymdeithas y Rhandir

Shwmai! Gobeithio eich bod yn mwynhau'r heulwen. Nodyn i'ch atgoffa fod yna rhandiroedd gwag yma o hyd os oes yna rywun brwdfrydig a bysedd gwyrdd am un. Gallwch alw Eirian 07896 288104 neu Sarah 07811 288104. Aelodaeth y flwyddyn gyntaf yn £35 ac yna £25 yn flynyddol. Cafwyd ein diwrnod o gymhenni ar y 4dd o Fehefin felly diolch i bawb wnaeth gyfrannu. 😊

Becki

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint

Yn dilyn tywydd godidog Mis Mai daeth y gwaith ar y cwrt tennis i ben. Felly gall unrhyw Andy Murray neu Emma Raducanu ymbaratoi am Wmbleton. Felly os am ddefnyddio'r maes am unrhyw achlysur, boed yn ddathliad neu gystadleuaeth, cysylltwch fel yr awgrymu'r isod.

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol am wyth o'r gloch ar Nos Lun 22ain o Fai yn y Neuadd. Mae'r trefniadau'r un peth a llynedd - Aaron Jones (Cadeirydd) - Sarah Moore (Is- gadeirydd) - Heledd Jones (Trysorydd) - Mike Eynon / Simon Davies) (Ysgrifennydd).

Clustnodwyd yr Helfa Drysor i'r Sadwrn 23ain o Fedi, felly cadwch lygad agored am fanylion pellach yn nesaf at y dyddiad.

Ein Helusen Ddewisol eleni yw'r Ymddiriedolaeth Trussel Banc Bwyd Caerfyrddin. Edrychwn ymlaen at godi arian iddynt ar y cyd a chasglu at gynnal a chadw'r Maes Chwarae.

Fel arfer mae'r Pwyllgor yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i gynnal a chadw codi arian i'r maes chwarae. Felly os am gynnig help llaw cysylltwch â ni fel a ganlyn.

Drwy E-bost parcllanpumsaintpark@gmail.com neu siarad ag Aaron Jones 07814 157946 neu unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor.

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Ein siaradwraig Mis Mai oedd Janice Fry awdures "Sacred Yews of Wales". Mae'n debyg fod mwy o goed ywen ym Mhrydain nag un wlad arall yn y byd a honnir fod un yng Nghymru ers 5,500 o flynyddoedd. Bu Janice yn llawn gwybodaeth am goed ywen ar draws y byd. Anodd credu rhai o'r ffeithiau ond 'roedd ganddi dystiolaeth gefndirol i'r hyn oedd yn ddweud ac mi welwch hyn holl yn ei llyfr. [https:// www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-60084636](https://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-60084636).

Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy? Fel arfer mae gennym amser i siarad ar ddiwedd cyfarfod neu'n well fyth dewch gyda ni ar un o'n teithiau.

Cyfarfodydd i gwrdd am 1.45yp i ddechrau am 2 o'r gloch yn Neuadd Bronwydd

- Dydd Sul Gorffennaf 25ain; **Dysgu Dewinio am £15**. Dewch a'ch rhoden a 'ch pendil eich hunan, neu gellir eu prynu yma. Yn y prynhawn dysgir elfennau sylfaenol o sut i ddefnyddio rhoden a phendil er mwyn dewinio. Bydd sesiynau ymarferol i ganfod llinellau egni dewinio. Hefyd mi fydd yna gyfle i gael sgwrs fach dros banded ac ymuno mewn cyfnod o gwestiwn ac ateb. I gychwyn am 1.45 erbyn 2 o'r gloch fel arfer.

Oherwydd costau cynyddol mae ein Haelodaeth nawr yn £20 y flwyddyn. Mynediad yn £6 i'r aelodau i gynnwys tocyn raffl a £6 i eraill am y cyfarfod cyntaf ond £10 am yr ail yn y gobaith yr ymunwch. Nid oes angen unrhyw gyfarpar, dewch fel i chi. Ewch i Facebook am y diweddaraf neu i'r wefan - <http://westwalesdowers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547 neu westwalesdowers@gmail.com

Clwb Gwili Chwedeg

Dydd Mercher Mai 17eg. Mwyhawyd taith bleserus i Aberystwyth i deithio ar Reilffordd y Rheidol gan sefyll ym Mhontarfynach am luniaeth. 'Roedd yr olygfa'n ogoneddus mewn tywydd bendigedig. Wedyn stopio yn Aberaeron am bysgod a sglodion.

- Dydd Iau Mehefin 15fed - Taith i Frycheiniog a gwario prynhawn ar y gamlas. Wedi Gwerthu Allan!
- Llun Mehefin 26ain Bruce Smith – Ffyrdd lleol y Porthmyn
- Llun Gorffennaf 24ain Twely Griffiths Sioe Hudol
- Mercher Awst 9fed Taith Ddirgel
- Llun Awst 21ain Gareth Richards Gwledd Hafaidd
- Mercher Medi 6ed – Taith yw threfni
- Llun Medi 25ain Brian Jones Castell Hywel

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Val Giles Ysgrifenyddes 01267 281194. - Croeso i aelodau newydd. Aelodaeth nawr yn £10 gyda thal mynediad yn £2 i gynnwys y raffl. Cwrdd yn Neuadd Bronwydd am 2 o'r gloch.

Sandy 01267 253547

Clwb Cant Llanpumsaint

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu at y flwyddyn eleni, a phob lwc i chi gyd. Gwnaed dynnu enillwyr Mawrth, Ebrill a Mai gyda'r gwobrwyo fel a ganlyn – (1af - £20; Ail - £15; 3dd £10)

- Mawrth -1af Jill Edwards (68) Ail Mike Eynon (64) 3dd Betty Marshall (115)
- Ebrill – 1af Ian Ayers (101) Ail Eleri Evans (86) 3dd Nivinia Davies (55)
- Mai -1af Peter Lee (7) Ail Paul & Juliet (84) 3dd Derick Lock (12)

A Y Cwis

Gyda'r diolch i bawb wnaeth gefnogi'r Cwis Misol yn y Neuadd Goffa, bu'n llwyddiant mawr. Gyda'r rhifau timoedd yn brysur lanw gwelir hyd at 60 yn mynychu'r cystadlu, rhai o bant hefyd. Bydd pob Tîm (uchafswm o 5) yn dyfalu ar draws amrywiaeth eang o bynciau. Newidir thema'r gystadleuaeth gerddorol yn fisol gan amrywio o'r pop ac yn cynnwys ffilmiau. Mae yna fwrdd lluniau, pos dudalen. Clipiau o amgylch y dirgel "Pwy yw Fi?" Mewn rowndiau eraill gellir defnyddio'r cellweiriwr i ddyblu eich pwyntiau, gyda rhain yn newid pob mis. Codir tal o £1 am bob person a £5 am y Tîm i gynnal y costau a'r wobr (£20 i'r enillwyr), gyda'r holl elw wedyn yn mynd at gronfa cynnal y Neuadd. Dewch a'ch diod a'ch bwyd eich hunain er mwyn cynnal picnic cymdeithasol (cyrhaeddodd pizza yma i un Tîm).

Nid yw'n rhy hwyr i ymuno oherwydd y 5 scor uchaf fydd yn cyfri pan ddaw'r amser i weld pwy fydd yr enillwyr yn Rhagfyr. Hyd yn hyn mae Bijou Belles drwch blewyn ar y blaen o 0,8 i'r Choir gyda Ken's Angels wrth eu sodlau. Gorffennaf 14eg yw dyddiad y Cwis nesaf. Yna wedi hoe fach yn Fis Awst 'nol a ni ar Fedi'r 15fed, sef y drydedd Nos Wener y mis arferol. Felly cofiwch am y Cwis Spooktacular ar yr 20fedo Hydref, yna 17eg o Dachwedd cyn y Cwis Nadolig arbennig ar Ragfyr y 15fed pan goronir enillwyr yr holl gystadleuaeth.

Sara a Darrell

Llongyfarchiadau i'r ddau ar eu llwyddiant ar Pointless – y gystadleuaeth Cwis teledu.



Clwb Bowlio DanDo Llanpumsaint a Nebo

Gorffennwyd y tymor gyda Noson Gymdeithasol ynghyd a rowndiau terfynol cystadlaethau'r Clwb.

Felly llongyfarchiadau i'r enillwyr canlynol.

- Parau Pren Dau - Catrin Lleucu a Niki Day
- Parau Pren Unigol - Jill Edwards
- Parau Pedwar Unigol - Derick Lock

Pleidleisiodd yr aelodau dros Jill Edards (Aelod gorau'r Clwb) fel enillydd Tarian Goffa Alan Deentry.

Daw'n amser i'r aelodau fwynhau hamdden dros gyfnod yr Haf cyn dychwelid ym Mis Medi i wynebu'r her o gystadlu yn yr Ail Adran.

Felly cofiwch gysylltu â'n gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf. Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli.

Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.

Clwb Garddio Bronwydd



Lliwiau godidog (Dave Robinson)

Cynhelir ein Sioe Arddwriaeth ar Sadwrn yr 19eg o Fedi, a Peter Giles Cadeirydd Y Cyngor Cymuned fydd ein Llywydd am y dydd. Mi fydd yna adran newydd eleni sef, Y Gorau yn y Sioe, i ddathlu holl gyfraniad Dai a Margaret Ifans i'r Clwb. Felly os ddewch ar y brig yn eich Adran byddwch yn cael eich ystyried am y wobr newydd hon. Gobeithiwn y gwnaeth Elaine a Dylan (gwnaethant gyfraniad hael ar ran Dai a Margaret) ddewis yr enillydd cyntaf. Ceir Rhaglen y Sioe odd wrth Elaine Nolan.

Rhaglen am weddill 2023

- Mehefin 29ain - Colin Lawrence - Cadw Gwenyn
- Gorffennaf 18fed - Louis Austin - Cynllun Porth Tywi - y diweddaraf
 - Awst 19eg - Sioe Flynyddol Garddwriaeth
 - Medi 19eg - Gareth Davies - Fuchsias
- Hydref 17eg - Bob a Rannveig Wallis - Trysorau Tajikistan ac Uzbekistan
- Tachwedd 21ain - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol + awr o gymdeithasu a lluniaeth

Sue Harte Chair susan_meade@hotmail.com

Grwp Ieuenctid DOTS



Ar Nos Iau, 11fed o Fai yn yr Eglwys, roedd DOTS yn estyn croeso i Pam Evans, MBE, sylfaenydd sefydliad Peace Mala. Roedd DOTS wedi llwyddo i ennill Gwobr Arian Peace Mala. Roedd yn anrhydedd i dderbyn ymweliad wrth Pam. Yn egluro sut dechreuiwyd y sefydliad, roedd yn son am anoddefgarwch crefyddol ymhlith pobl ifanc yn yr ysgol ble yr oedd yn dysgu

Addysg Grefyddol, hyn yn dilyn trasiadi 9/11. Teimlodd angen mawr i ddysgu pobl, beth bynnag eich ffydd neu ddi-ffydd, gelwir pawb i fyw gyda pharch tuag at eraill gydag addfwynder, tosturi, caredigrwydd a chariad. Galwodd ar athrawon o fewn crefydd gyfundrefnol i gofio hyn.

Roedd DOTS eisoes wedi bod yn ffodus ym mis Chwefror i ymweld a phencadlys Peace Mala yn Abertawe lle mae yn seiliedig. Roedd hyn hefyd yn brofiad trawiadol i weld holl grefyddau'r byd yn cael eu cynrychioli mewn un canolfan.

Roedd noson yr 11fed o Fai hefyd yn sesiwn olaf i'r Parch Gaynor, a bu'r aelodau a'u teuluoedd yn ei dymuno yn dda yn ei swydd newydd, a rhoi diolch iddi am ei gwaith gwych yn sefydlu'r grwp ieuenctid a darparu cyfleoedd ffantastig i bobl ifanc o fewn y gymuned.

Bydd DOTS yn parhau bob Nos Iau am 5.30yh adeg amser tymor gyda'r Parch Kristie fel arweinydd.

Emma

Atal Torri Porfa Mis Mai



Penderfynom ymuno ag ymgyrch atal torri porfa ym Mis Mai gan neilltuo hanner ein lawnt yn wyllt (oherwydd bod angen peth porfa ar ein ci). Bu'n arbrawf dymunol dros ben ac fe'm synnwyd gan yr amrywiaeth o borfeydd a blodau wnaeth ffynnu yn y rhan adawyd yn wyllt. Gwelais rwyddlwyn y maes, sgorpionllys, llaeth y gaseg, a phyg yr aran y weirglodd ymysg y blodau. Bu'r porfeydd yn hynod brydferth yn enwedig yn y gwynt (mae'n eithaf gwyntog yma ar ben y bryn). Ymysg y porfeydd gwelwyd yma maswellt penwyn, gweunwellt, erwain a llydan y ffordd. Rydym nawr ar 60/40 ddim yn torri porfa, ac yn bwriadu cadw pethau felna am rai misoedd er mwyn canfod beth arall all dyfu.

Debbie yn Isfryn

Cylch Meithrin Bronwydd



Roedd hanner tymor cyntaf yr Haf wedi ein bendithio a thywydd gogoneddus, a mae nifer o gyfloedd i ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r plant wedi bod yn chwilio am greaduriaid bach yn yr ardd, fel rhan o'n thema ar drychfilod. Dysgodd y plant bod nifer o greaduriaid bach yn gwneud eu cartrefi yng ngardd y Cylch. Hyd yn hyn rydym wedi gweld mwydon, moch coed, malwod, chwilod gwyrddlas a chwilod cardinal, miltroed...

Mae'r plant wedi bod yn adeiladu gwesty

trychfilod yn y cornel i greu cynefin. Mae rhai o'r diwrnodau twym wedi ein galluogi i archwilio glan yr afon, i gyfuno chwarae dwr, yn ogystal a throï cerrig i ganfod trychfilod bach yr afon. Rydym yn ffodus ein bod wedi ein lleoli mewn ardal brydferth lle ceir nifer o gyfleoedd ar gyfer profiadau chwarae dilys.

Mae llefydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer plant rhwng 2 oed i fyny i oed ysgol gynradd.

Mae wedi bod yn bleser i groesawu plant newydd i ein sesiynau Ti a Fi bob Dydd Gwener adeg amser tymor o 10yb tan 12.00 hanner dydd. Sesiwn yw hwn ar gyfer unrhyw blentyn 0-4 oed gyda eu rhiant neu gofalwr.

Pob ymholiad i Verona ar 07929 431652. Diolch.

Yr Eglwys

Yn ystod ei pum mlynedd fel Ficer yn Llanpumsaint mi greodd y Parch Gaynor nifer o syniadau a chyfleoedd i bob oed yn y gymuned. Er iddi ymadael am sefyllfaoedd newydd gadawodd ei hol yn amlwg yma. Mae gennym nawr Gylch DOT gweithgar ymysg yr ieuentid a mudiad addolgar i'r plant ifancaf. Yna cawsom y Caffi Bach yn yr Eglwys wnaeth dynnu'r gymuned at ei gilydd.

Wrth ddiolch i Gaynor gobeithio y gallwn gynnal ei hetifeddiaeth. Bydd y gwasanaethau oll yn parhau ynghyd a'r Gwasanaeth 9 o'r gloch fore Sul i'r rhai sy'n dymuno llonyddwch yn y byd gwyllt yma.


Niki Day a'r gymuned Eglwys

Stampiau Post heb y cod bar

Mae gennych hyd ddiwedd Gorffennaf i'w defnyddio neu eu newid am y rhai gyda'r cod bar - manylion o royalmail.com/barcoedstamp

Y Clafdy ar agor i Ddydd Agored Cynllun y Gerddi Cenedlaethol

Bydd Skanda Vale yn agor ei gerddi godidog i'r cyhoedd ar Sadwrn 15fed o Orffennaf fel rhan o'r cynllun uchod. Lluniwyd, crëwyd a chynhelir ein gerddi gan ein gwirfoddolwyr. Gyda'r haf ar y trothwy mae'r gerddi yn fyw o fywyd ac egni, yn wledd o lywiau a phersawr, yn warchodfa i fywyd gwyllt ac yn warchodfa o heddwch a thawelwch i bobl.



Mi fydd yna baned cacen a lluniaeth a llawer iawn mwy yno hefyd. Bydd pob ceiniog a godir ar y dydd yn mynd at waith Clafdy Skanda Vale yn cynnal cleifion a'u teuluoedd. Caiff ymwelwyr hefyd gyfle i ddysgu mwy am waith y Clafdy, y gwasanaethau rhad a chyfleoedd i wirfoddolwyr gan gynnwys gweithio yn yr ardd. Fel y gwyddoch gwirfoddolwyr yw rhan helaeth o staff Skanda Vale gan gynnig gwasanaeth rhad i ddiodefwrwr Sir Gar, Ceredigion a Sir Benfro beth bynnag fo eu crefydd. Felly daw ein cleifion a'n gwirfoddolwyr o'r tair sir.

Os allech chi neu berthynas elwa o wasanaeth Skanda Vale gellwch e-bostio hello@skandavalehospice.org neu ffonio 01559 371222. Os am wirfoddoli beth bynnag yw eich arbenigrwydd e-bostiwch volunteers@skandavalehospice.org
Steve Adams Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

Cymdeithas Rhieini ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Diolch yn fawr iawn i bawb brynodd sgwariau ar gyfer cyfle i ennill Hamper Pasg. Dyma'r enillwyr Iwcus:

1. Cath Vimpany, 2. Emma Lacey, 3. Annette Evans, 4. Meinir Jones, 5. Emma Lacey, 6. Mrs Harries
7. Lili Lewis, 8. Elfed Davies, 9. Nia a Tomos Morris, 10. Bet Eldred

Gwyneth Ayers

E Newyddion o Fenter Gorllewin Sir Gar

(Mudiad sy'n annog a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg yn ardal gorllewin Sir Gar)

- **Ras Fach y Wiber** - Castell Newydd Emlyn Dydd Mawrth 20fed o Fehefin.
- Dechrau yn y Clwb Rygbi; 1K < 2.5K, a 5K – cyfle i blant ac oedolion gyd-redeg. Cofrestrï rhwng 5 a 6 o'r gloch yn y Clwb Rygbi, cyn cychwyn am 6.15. Bydd y Bar yn gwerthu diodydd ar y noson.
- **Gŵyl fach Newy'** - Sadwrn 24ain - O 10 y bore hyd 1 o'r gloch Maes Chwarae Clwb Rygbi Castell Newydd - Gwisg Ffansi - Gemau a Chwaraeon - Paentio Gwynebau a mwy
- **Gwyl Canol Dre** - Caerfyrddin Gorffennaf 8fed - Digwyddiadau a Gweithgareddau o 10 y bore hyd 8 y nos - Caeau Parc Myrddin. Dewch i fwyhau amrywiaeth o berfformiadau ar y ddau lwyfan:
 - Prif Lwyfan – Grwpiau ac artistiaid fel Gwilym, Eden ac Yws Gwynedd
 - Llwyfan Perfformio – cyfraniadau Ysgolion Lleol a sioeau fel Sian/Sionc ac Mewn Cymeriad.

Menter Gorllewin Sir Gar
yn cyflwyno | introducing.

GŴYL FACH NEWY'
CASTELL NEWYDD EMLYN | NEWCASTLE EMLYN

GŴYL FACH NEWY'
Gŵyl i deuluoedd yng Nghastell Newydd Emlyn
Newcastle Emlyn family festival

24.6.23 10AM-1PM

**10.15am - Cystadleuaeth Gwisg Ffansi
Fancy Dress Competition**
Thema | Theme: coch, gwyn a gwyrdd | red, white and green
Plant ac oedolion | Children and adults

11am - Mabolgampau | Sports
Plant ac oedolion | Children and adults

12pm - Stori gyda | Story with: Magi Ann

Peintio wynebau a glityr | Face painting and glitter
Gemau Amrywiol | Various games
Dewch â phicnic | Bring a picnic

Noddwyd gan | Sponsored by
Emlyn Circle

Clwb Criced Bronwydd Home Fixtures - Season 2023

Date	1st/2nd	Opponents
Mehefin 17eg	1 X1	Maesteg
Mehefin 24 awn	2 X1	Sgiwen
Gorffennaf 1af	1 X1	Llangennech
Gorffennaf 8fed	2 X1	Briton Ferry Steel
Gorffennaf 15fed	2 X1	Llandeilo
Gorffennaf 22ain	1 X1	Ynysygerwn
Gorffennaf 29ain	1 X1	Llanelli
Awst 5ed	2 X1	Dunvant
Awst 12fed	1 X1	Tata Steel
Awst 19eg	2 X1	Swansea Civil Service
Awst 26ain	1 X1	Merthyr Tydfil

Bydd pob gem yn cychwyn am 1 o'r gloch ar gae Cnwcyderi Bronwydd

Fe welwch hysbysfwrdd ger y fynedfa i'r Maes Chwarae yn croesawu bechgyn a merched i ymuno i chwarae criced. Enw'r mudiad yw All Stars sy'n annog y plant yma. Bydd y gwasanaeth fel arfer yn parhau am 8 wythnos a gellir dysgu mwy drwy fynd i All Stars Cricket ar y We. Karl von Webber sy'n rhedeg y gwasanaeth y Cnwcyderi - 07769 226695.

Dorian Taylor

Planhigion Coed Sycamorwydden

Yn rhad ac am ddim! Dewch yma i'w casglu cyn i mi eu ceibo lan a'u taflu.

Dave 07980 271279 neu 01267 253993



O Amgylch ardal y Graig

Wrth i'r ardal fach yma ddringo i fig y newyddion lleol yn ddiweddar, daeth cyfle i ddwyn i gof peth o hanes yr ardal fach hanesyddol yma. Mae Cyfrifiad 1841 yn cofnodi ond un tŷ ym mhentref gwealod Bronwydd bryd hynny, sef Tŷ Picca (ger mynedfa Gelli Aur) ac mae yno o hyd. Ond yn ardal y Graig 'roedd hyd at ddeg o gartrefi, o Bantglas a Parce, tua'r Wern a Chwmynys, ac i gyd o amgylch tafarn y Clifford Arms ac Awelfa drws nesaf lle cedwid y ceffylau. Fry uwchben mewn safle amddiffynnol gwych mae olion caer o Oes yr Haearn a chastell pren o'r 12fed ganrif, yn weladwy iawn.

Caewyd y tafarn yn y 1920au wedi iddo fod yn y newyddion sawl gwaith am werthi cwrw ar y Sul. Wedi yfed llond bola cwmpodd un dyn bach i'r gwter ar i ffordd adre ac mi foddodd. Wrth y tro cynta' yn yr heol mi welwch olion cwar cerrig fu unwaith yn brysur. Dywed un stori iddo orfod taweli yn y 1930au oherwydd bod cerrig yn glanio ar dy Parce, ond mae'n debyg mae prysurdeb cynyddol yr hewl fawr achosodd iddo derfynu. Ewch a thorj i'r ogof fach i weld pa mor bell yr ewch!



Gweddw dau frawd oedd Jennie yn Awelfa a Maud drws nesaf yn y Clifford, y ddwy yn rheoli cyffordd y Graig drwy gydol ail hanner y ddeunawfed ganrif. Gyda'i drws agored haf a gaeaf gydol oriau'r dydd, Jennie oedd ffynhonnell holl newyddion a chlonc yr ardal o Lanpumsaint bob cam i'r dre. Os am wybod rhywbeth byddai pawb yn stopio a'i holi ac mi fyddai hi'n eich holi 'nol hefyd. Penderfynodd Cyngor Llanpumsaint fod ei gwasanaeth ddigon gwerthfawr i osod sedd ochr draw'r heol i hwyluso pethe. A dyna le

bydde Malcolm Panddy yn eistedd i glywed y newyddion diweddaraf ar ei ffordd adre o lofa Cynheidre. Er i Jennie a Maud fod yn ffrindiau mawr cadwent eu hannibyniaeth, hyd yn oed ar Ddydd Nadolig, gan gyd-gwrdd ar stepen drws i drafod ansawdd eu twrci a phwddin annibynnol. Erbyn hyn unwyd y ddau dy yn un.

Yn ystod y 1840degau agorwyd hewl newydd i gysylltu Bronwydd a'r briffordd ger y Stag & Ffesant yn Pontarsais. Bwriad y Turnpyke Trust oedd gosod iet ar gyffordd Y Graig er mwyn casglu rhagor o arian, ond buan iawn wnaeth Merched Becca eu perswadio i anghofio'r syniad.